# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cyhoeddwyd: Medi 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 564A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus, a thrwy wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 4

Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith sy'n debygol o'i alluogi i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17 5

Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella 6

## Adroddiad manwl

Perfformiad 8

Y defnydd o adnoddau 11

## Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 12

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 13

Atodiad 3 – Tystysgrifau cydymffurfio 15

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ers i'r adroddiad diwethaf o'i fath gael ei gyhoeddi ym mis Awst 2015. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn yr Awdurdod ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn yr adroddiad hwn a yw o'r farn y bydd yr Awdurdod yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers ein hadroddiad diwethaf isod:

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig yr Awdurdod ar gyfer cyflawni ei amcanion gwella. |
| Archwiliad 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig yr Awdurdod. |
| Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau Diogelwch Tân | Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer gwerthuso effaith gweithgarwch diogelwch tân cymunedol a gweithgarwch sy'n ymwneud â diogelwch tân busnesau. Nododd yr adolygiad fod yr Awdurdod yn cynllunio ac yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau priodol sy'n gwella diogelwch tân a bod ganddo drefniadau ar waith ar gyfer gwerthuso effaith ymgyrchoedd, ond, fel cyrff eraill, nad oes ganddo fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn yn llawn. Roedd yr adroddiad manwl yn cynnwys dau gynnig ar gyfer gwella i'w gweithredu'n genedlaethol. |
| Asesiad Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o sefyllfa ariannol yr Awdurdod a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. Nododd yr adolygiad fod trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau cydnerthedd ariannol yn gadarn. |

## Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith sy'n debygol o'i alluogi i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17

6 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaeth i bennu amcanion gwella a chyhoeddi gwerthusiad o'i berfformiad.

b Mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau priodol sy'n gwella diogelwch tân ac mae ganddo drefniadau ar gyfer gwerthuso effaith ymgyrchoedd, ond, fel cyrff eraill, nid oes ganddo fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn yn llawn:

- Mae gan yr Awdurdod gynlluniau clir ar gyfer gweithgarwch diogelwch tân sy'n ymwneud â safleoedd domestig ond mae cynlluniau ar gyfer safleoedd busnes yn llai eglur.
- Mae'r Awdurdod yn hyrwyddo diogelwch tân mewn cymunedau drwy gynnal gweithgareddau diogelwch tân ac atal tân helaeth.
- Nid oes unrhyw ddull cyson o werthuso effeithiolrwydd gwaith diogelwch tân yng Nghymru. Mae'r trefniadau adrodd lleol presennol yn disgrifio lefel y gweithgarwch a rhywfaint o effeithiolrwydd lleol ond dim ond darlun rhannol o berfformiad y maent yn ei roi.

c Mae trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau cydnerthedd ariannol yn gadarn.

- Mae'r Awdurdod wedi lleihau ei wariant 8 y cant o gymharu â 2011-12 ac mae lefelau cronfeydd wrth gefn yn cynyddu.
- Ategir gwaith cynllunio ariannol gan strategaeth gyllidebol ynghyd â dealltwriaeth o'r risgiau a'r heriau allweddol.
- Ategir rheolaeth ariannol gan brosesau monitro a rhagfynegi cyllidebau effeithiol ac mae gan yr Awdurdod hanes da o reoli cyllidebau.
- Mae trefniadau llywodraethu ariannol yn effeithiol ac fe'u hategir gan her glir gan aelodau'r Awdurdod, prosesau adrodd cywir ac ymrwymiad ar lefel uwch.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

7 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- a wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Awdurdod, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Awdurdod baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, nodir materion â llai o flaenoriaeth, sef cynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ac fe'u nodir yn y tabl isod.

## Cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella |
|---|
| **C1**<br>Ar lefel genedlaethol, datblygu egwyddorion o ran sut i werthuso llwyddiant a chanlyniadau ymyriadau, digwyddiadau a gwaith atal presennol sy'n ystyried y canlynol, a chytuno arnynt:<br>• Perthnasedd – y graddau y mae ymyriadau yn cyflawni canlyniadau ystyrlon.<br>• Adnoddau a gallu – defnyddio adnoddau yn effeithiol.<br>• Effeithlonrwydd – mesur sut y caiff adnoddau a mewnbynnau eu troi'n ganlyniadau.<br>• Effeithiolrwydd – y graddau y cyflawnwyd ymyriadau neu y disgwylir iddynt gael eu cyflawni gan ystyried eu pwysigrwydd cymharol.<br>• Cynaliadwyedd – parhad buddiannau ar ôl i fewnbynnau cychwynnol gael eu cwblhau. Y tebygolrwydd o fuddiannau hirdymor.<br>• Gwerth am arian – y ffordd y caiff cost un mewnbwn ei gwrthbwyso â mentrau eraill.<br>• Materion sy'n ymwneud â chydraddoldebau. |
| **C2**<br>Ar lefel genedlaethol, sefydlu trefniadau gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a chyrff iechyd perthnasol er mwyn nodi faint o anafiadau na roddir gwybod amdanynt a achosir gan danau fel y gellir nodi pobl a allai fod yn agored i niwed neu safleoedd risg uwch. |

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaeth i bennu amcanion gwella a chyhoeddi gwerthusiad o'i berfformiad

### Archwilio Cynlluniau Gwella 2015-16 a 2016-17 yr Awdurdod

9 Ym mis Mai 2015 a mis Gorffennaf 2016, gwnaethom gyhoeddi tystysgrifau yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur Llywodraeth Leol a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r tystysgrifau wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

### Adolygu asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn 2014-15

10 Ym mis Tachwedd 2015, gwnaethom gyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur. Mae ein tystysgrif wedi'i chynnwys yn Atodiad 3.

## Mae'r Awdurdod yn cynllunio ac yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau priodol sy'n gwella diogelwch tân ac mae ganddo drefniadau ar gyfer gwerthuso effaith ymgyrchoedd, ond, fel cyrff eraill, nid oes ganddo fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn yn llawn

11 Mae hyrwyddo diogelwch tân[1] yn un o swyddogaethau statudol craidd Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae gan yr Awdurdodau Tân ac Achub rolau wedi'u diffinio'n glir mewn perthynas â gorfodi diogelwch tân fel y nodir yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Yn ystod y flwyddyn adolygwyd trefniadau ym mhob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru er mwyn asesu'r ffordd roedd gweithgarwch yn cael ei gynllunio; y modd roedd yn cael ei gyflawni ac a ellid gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgarwch.

12 Nodwyd gennym fod yr Awdurdod yn cynllunio ac yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau priodol sy'n gwella diogelwch tân a bod ganddo drefniadau ar gyfer gwerthuso effaith ymgyrchoedd, ond, fel cyrff eraill, nad oes ganddo fframwaith ar gyfer gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgareddau hyn yn llawn.

13 Mae gan yr Awdurdod gynlluniau clir ar gyfer gweithgarwch diogelwch tân sy'n ymwneud â safleoedd domestig ond mae cynlluniau ar gyfer safleoedd busnes yn llai eglur:

a mae dull yr Awdurdod o gynnal gweithgareddau diogelwch tân cymunedol yn seiliedig ar gynlluniau clir sy'n adlewyrchu anghenion lleol a disgwyliadau cenedlaethol;

1 Yn yr adroddiad hwn defnyddir y termau 'diogelwch tân cymunedol' (sy'n cwmpasu safleoedd domestig a mentrau cymunedol) a 'diogelwch tân busnesau' i ddisgrifio meysydd ffocws penodol.

b yn wahanol i'r trefniadau ar gyfer gweithgarwch diogelwch tân cymunedol, mae'r cynlluniau a'r blaenoriaethau ar gyfer diogelwch tân busnesau yn llai eglur; a

c cheir amrywio o ran yr adnoddau a ddarperir ar gyfer gweithgarwch diogelwch tân gan Awdurdodau Tân ac Achub unigol ac mae arian grant y llywodraeth yn lleihau.

14 Mae'r Awdurdod yn hyrwyddo diogelwch tân cymunedol drwy gynnal gweithgareddau diogelwch tân ac atal tân helaeth:

a mae'r Awdurdod yn llwyddo i ddefnyddio amrywiaeth o weithgareddau ymyrryd ac atal er mwyn hyrwyddo diogelwch tân cymunedol; ac

b er bod nifer y safleoedd annomestig hysbys wedi cynyddu, ni fu unrhyw newid o ran cyfran y safleoedd a gaiff eu harchwilio gan yr Awdurdod.

15 Nid oes unrhyw ddull cyson o werthuso effeithiolrwydd gwaith diogelwch tân yng Nghymru. Mae'r trefniadau adrodd lleol presennol yn disgrifio lefel y gweithgarwch a rhywfaint o effeithiolrwydd lleol, ond dim ond darlun rhannol o berfformiad y maent yn ei roi:

a mae awdurdodau tân ac achub yn cynnal gweithgareddau diogelwch tân â diben cyffredin ac er y caiff gweithgarwch ei fonitro nid oes unrhyw ddull cyffredin o werthuso pa mor effeithlon y caiff ei gyflawni;

b defnyddir archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn helaeth er mwyn mynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch tân domestig a'u lliniaru ond prin yw'r meini prawf gwerthuso; ac

c nid yw gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei defnyddio mewn modd cydgysylltiedig er mwyn llywio gweithgareddau diogelwch tân ac mae'r ffaith nad yw data yn cael eu rhannu rhwng partneriaid yn rhwystr ar lefelau gweithredol.

## Adolygiad Comisiynydd y Gymraeg o gynllun iaith Gymraeg yr Awdurdod

16 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

17 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran rhoi'r cynllun iaith ar waith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

18 Mae adroddiadau arolygu a llythyrau a gyflwynwyd gan y Comisiynydd i'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ar gael ar wefan y Comisiynydd.

# Y defnydd o adnoddau

## Archwiliad o gyfrifon yr Awdurdod

19 Ar 26 Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Awdurdod. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Awdurdod, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

## Mae trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau cydnerthedd ariannol yn gadarn

20 Sicrheir cydnerthedd ariannol pan fydd gan awdurdod systemau a phrosesau cadarn i reoli ei risgiau a'i gyfleoedd ariannol yn effeithiol a sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog. Ystyriwyd a oedd gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar gyfer cynllunio i sicrhau a chynnal ei gydnerthedd ariannol yn y tymor canolig (tair i bum mlynedd ymlaen llaw fel arfer). Er y gall cylch blynyddol roi mwy o sicrwydd i'r Awdurdod, mae pwysau ariannol yn cael effaith y tu hwnt i gyfnod y setliad presennol. Rydym wedi ystyried tystiolaeth o ddull yr Awdurdod o reoli ei gyllid yn y gorffennol diweddar ac yn y tymor canolig wrth lunio ein barn ar gydnerthedd ariannol yr Awdurdod.

21 Nid oedd ein hadroddiad manwl yn cynnwys unrhyw gynigion ar gyfer gwella ac fe'i nodwyd gan y Panel Gweithredol ar 9 Mai 2016. Nodwyd gennym fod trefniadau'r Awdurdod ar gyfer sicrhau cydnerthedd ariannol yn gadarn am y rhesymau canlynol:

- a mae'r Awdurdod wedi lleihau ei wariant 8 y cant o gymharu â 2011-12 ac mae lefelau cronfeydd wrth gefn yn cynyddu;
- b ategir gwaith cynllunio ariannol gan strategaeth gyllidebol ynghyd â dealltwriaeth o'r risgiau a'r heriau allweddol;
- c ategir rheolaeth ariannol gan brosesau monitro a rhagfynegi cyllidebau effeithiol ac mae gan yr Awdurdod hanes da o reoli cyllidebau; ac
- ch mae trefniadau llywodraethu ariannol yn effeithiol ac fe'u hategir gan her glir gan aelodau'r Awdurdod, prosesau adrodd cywir ac ymrwymiad ar lefel uwch.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Meirick Lloyd Davies
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0JJ

Annwyl Mr Lloyd Davies,

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2014-15

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 30 Medi 2015, a chyflwynir adroddiad manylach maes o law.

## Rwy'n fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd fy Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

## Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2015.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir,

Anthony Barrett
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I. Simon Smith, Prif Swyddog Tân
Ken Finch, Swyddog Adran 151

# Atodiad 3 – Tystysgrifau cydymffurfio

## Archwilio Cynllun Gwella 2015-16 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

### Cyhoeddwyd y dystysgrif 5 Mai 2015

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

### Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chadarnhau a wyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Steve Barry, Rheolwr

# Archwilio asesiad o berfformiad 2014-15 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Cyhoeddwyd y dystysgrif 20 Tachwedd 2015

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'i berfformiad yn 2014-15, ar ôl iddo gael ei gyhoeddi ar 29 Hydref 2015, yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad:

- o ran cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- o ran cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; ac
- o ran cyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn pennu a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad yn nodi a wyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad yr Awdurdod er mwyn cadarnhau a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Steve Barry, Rheolwr

# Archwilio Cynllun Gwella 2016-17 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Cyhoeddwyd y dystysgrif Gorffennaf 2016

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Andy Bruce, Rheolwr

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru